***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 10. (See end of Document for details)*

ATODLEN 16

RHYDDHAD GRŴP

## RHAN 4

TYNNU RHYDDHAD YN ÔL

*Ni chaiff rhyddhad grŵp ei dynnu'n ôl pan fo gwerthwr yn gadael grŵp*

10 (1) Ni chaiff rhyddhad grŵp ei dynnu'n ôl o dan baragraff 8 pan fo'r prynwr yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr am fod y gwerthwr yn gadael y grŵp.

(2) Ystyrir bod y gwerthwr yn gadael y grŵp os yw'r cwmnïau yn peidio â bod yn aelodau o'r un grŵp oherwydd trafodiad sy'n ymwneud â chyfranddaliadau—

(a) yn y gwerthwr, neu

(b) mewn cwmni arall—

(i) sydd uwchlaw'r gwerthwr yn strwythur y grŵp, a

(ii) sydd, o ganlyniad i'r trafodiad, yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r prynwr.

(3) At ddiben is-baragraff (2), mae cwmni "uwchlaw" y gwerthwr yn strwythur y grŵp os yw'r gwerthwr, neu gwmni arall sydd uwchlaw'r gwerthwr yn strwythur y grŵp, yn is-gwmni 75% i'r cwmni.

(4) Ond os yw rheolaeth dros y prynwr yn newid ar ôl i'r gwerthwr adael y grŵp, mae paragraffau 8, 9(4) a (6), 13 a 14 yn cael effaith fel pe bai'r prynwr bryd hynny wedi peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr (ond gweler is-baragraff (7)).

(5) At ddibenion y paragraff hwn, mae rheolaeth dros y prynwr yn newid os yw—

(a) person sydd â rheolaeth dros y prynwr (ar ei ben ei hun neu ynghyd ag eraill) yn peidio â bod â rheolaeth drosto,

(b) person yn cael rheolaeth dros y prynwr (ar ei ben ei hun neu ynghyd ag eraill), neu

(c) y prynwr yn cael ei ddirwyn i ben.

(6) At ddibenion is-baragraff (5), nid oes gan berson ("P") reolaeth dros y prynwr, ac nid yw'n cael rheolaeth dros y prynwr, os oes gan berson arall neu bersonau eraill reolaeth dros P.

(7) Nid yw is-baragraff (4) yn gymwys pan fo—

(a) rheolaeth dros y prynwr yn newid am fod credydwr benthyciadau (o fewn yr ystyr a roddir i "loan creditor" gan adran 453 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4)) yn cael rheolaeth dros y prynwr, neu'n peidio â bod â rheolaeth dros y prynwr, a

(b) y personau eraill a oedd â rheolaeth dros y prynwr cyn y newid hwnnw yn parhau i fod â rheolaeth drosto.

(8) Yn y paragraff hwn, mae cyfeiriadau at "rheolaeth" i'w dehongli yn unol â'r diffiniad o "control" yn adrannau 450 a 451 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4) (yn ddarostyngedig i is-baragraff (6)).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 10. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 16 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 16 para. 10 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 10.